

**Pembrokeshire Public Services Board**  
**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro**



**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**  
**Dydd Mawrth, y 30<sup>ain</sup> o Ebrill 2019 am 10.00 a.m.**  
**Swyddfeydd PLANED, Arberth**

**Presennol:**

Sue Leonard	Prif Swyddog, PAVS (Is-gadeirydd)
Ian Westley	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro (gadawodd am 11.25 a.m.)
Kevin Jones	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau y De-orllewin Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Barry Walters	Pennaeth Dros Dro, Coleg Penfro
Rowland Rees-Evans	Cadeirydd, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jonathan Feild	Cyflogwr a Rheolwr Partneriaeth, DWP
Anna Bird	Pennaeth Datblygu Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dr Steven Jones	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Penfro
Iwan Thomas	Prif Weithredwr, PLANED
Cris Tomos	Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Gymraeg
Martyn Palfreman	Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Alison Perry	Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Uwch-aryogydd Ross Evans	Heddlu Dyfed Powys
James Parkin	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr, PCNPA
Natalie Pearson	Pennaeth Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru

*Cymorth / Ysgrifenyddiaeth*

Nick Evans	Rheolwr Partneriaeth a Chymorth Craffu, CSP
Lynne Richards	Cyd-drefnydd Partneriaeth a Chymorth Craffu, CSP

*Yn bresennol*

Amy Richmond-Jones	Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jonathan Griffiths	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CSP
Chris Harrison	Pennaeth Cyd-gomisiynu Strategol, CSP
Gwyneth Jones	Arweinydd Tîm, Tîm Cysylltwyr Cymunedol
Rhys Eynon	Hyrwyddwr a Chysylltwyr Anabled Dysgu

**Ymddiheuriadau**

Tegryn Jones	Prif Weithredwr, PCNPA (Cadeirydd)
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Judith Hardisty	Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ros Jervis                                      Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
Andy Jones                                     Prif Weithredwr Dros Dro, Porthladd Aberdaugleddau

Cychwynnodd y cyfarfod am 10.00 a.m.

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rheiny a restrwyd uchod.

Nododd SL y byddai hi'n cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb TJ a llongyfarchodd Barry Walters ar ei benodi'n Bennaeth Coleg Penfro.

## 2. Cyflwyniad: Bwrdd Rhaglen Atal Sir Benfro

Rhoddodd SL a CH gyflwyniad ar Fwrdd Rhaglen Atal Sir Benfro, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Y Partneriaid
- Y weledigaeth a rennir ar gyfer y Bwrdd a'r weledigaeth drosfwaol i greu cymunedau prysur, dyfeisgar a chysylltiedig
- Enghreifftiau o brosiectau dan fwrdd y rhaglen, e.e. PIVOT
- Swyddogaeth y Cysylltwyr Cymunedol
- Lle i gael gwybodaeth bellach
- Gwerthusiad o'r rhaglenni a'r dyfarniadau
- Y camau nesaf

Amlinellodd GJ swyddogaeth y tîm o Gysylltwyr Cymunedol, i hybu lles, cysylltu cryfderau o fewn cymunedau a gweithio gydag unigolion i greu cyfleoedd. Nododd RE ei fod wedi bod yn gweithio gyda'r tîm am y tri mis diwethaf yn ne'r sir ac amlinellodd beth o'r gwaith yr oedd wedi bod yn ymwneud ag ef hyd yma. Byddai gwybodaeth am y prosiectau hyn yn cael ei chylchredeg yn dilyn y cyfarfod.

LR

Rhoddodd MP ddiweddariad byr i'r partneriaid am y gronfa drawsnewid ar gyfer y rhanbarth drwy Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r cynigion a gyflwynwyd / yr atebion a ddisgwylid. Nododd fod trafodaethau wedi cael eu cynnal ynghylch lledaenu rhaglen y Cysylltwyr Cymunedol fel model i'r rhanbarth a hefyd mewn cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru, fod partneriaid statudol wedi bod yn benodol ynghylch y ffordd y dylai cyllid craidd gael ei ailfuddsoddi mewn rhaglenni atal. Cafwyd trafodaeth fer ynghylch manteision cost rhai o'r rhaglenni megis PIVOT a thynnodd SL sylw at yr anawsterau ynghylch 'profi'r negyddol' a dangos gwerth y dull atal.

Byddai'r cyflwyniad yn cael ei gylchredeg i'r partneriaid yn dilyn y cyfarfod.

LR

## 3. Cyflwyniad: Canolbarth a Gorllewin Cymru mwy iach: Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda

Rhoddodd AB ddiweddariad ar yr ymgynghoriad, Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol, ac ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Iechyd yn Sir Benfro oedd wedi ei gynnal yn ystod Ebrill i Orffennaf 2018. O argymhellion hwn datblygwyd strategaeth 20 mlynedd ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Mewn perthynas â'r Model Cymunedol a amlinellwyd fel rhan o'r cyflwyniad, rhoddodd EL ddiweddariad ar y themâu a godwyd a dadansoddiad o'r trafodaethau a gynhaliwyd mewn trafodaethau Rhwydwaith Cymunedol Integredig hyd yma.

Terfynodd AB y cyflwyniad drwy amlinellu ymrwymadau Hywel Dda o ran eu Fframwaith lechyd a Lles, eu gweledigaeth gyffredin, eu nodau strategol a'r canlyniadau tymor hir a'r symudiad dros newid – gweithio gyda phobl yn hytrach na gwneud pethau iddynt.

Byddai'r cyflwyniad yn cael ei gylchredeg i'r partneriaid yn dilyn y cyfarfod.

LR

#### **4. Gweithio cydweithredol PSB-RPB**

Rhoddodd AB ddiweddariad byr ar y digwyddiad a gynhaliwyd ar y 27<sup>ain</sup> o Fawrth 2019, yr oedd hi ac NE yn bresennol ynddo a rhai o'r negeseuon allweddol o'r diwrnod, a amlinellwyd ganddi fel a ganlyn;

- Mae cydweithio a dod o hyd i fannau cyffwrdd ar gyfer integreiddio a chydweithredu rhwng gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs) yn flaenoriaeth ac yn ddisgwyliad gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Nid yw rolau a chyfrifoldebau gwahanol y PSBs a'r RPBs bob amser wedi cael eu deall yn glir - rhannwyd tudalen ffeithiau i grynhoi'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth (gweler ynghlwm).
- Mae gan y PSBs gyfrifoldeb am les poblogaeth ar lefel ardal awdurdod lleol; mae gan yr RPBs gyfrifoldeb i weithio tuag at integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar draws ôl-troed rhanbarthol.
- Y bwriad yw i'r PSBs a'r RPBs ategu ei gilydd yn hytrach na gweithio ar eu pen eu hunain, gan adeiladu ar feysydd o ddiddordeb sy'n gyffredin i'r ddau, e.e. atal ac ymyrryd yn gynnar, cynnwys a chydgyhyrchu.
- Mae gan y PSBs rôl allweddol mewn gweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus lleol ond mae angen iddynt hefyd benderfynu beth yw'r ffordd orau i gyfuno'u hymdrechion a gweithio'n wahanol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi PSBs sy'n dymuno gweithio'n agosach gyda'i gilydd ac awgrymwyd efallai y byddai cyllid ar gael i gefnogi hyn.

Nododd KJ fod diffyg ffocws gan Lywodraeth Cymru ar y PSBs yn gyffredinol. Nodwyd hefyd na dderbyniwyd dim hyd yma oddi wrth hwyluswyr y digwyddiad fel yr addawyd.

Cytunai'r partneriaid â'r cais i gyfarfod y PSB Rhanbarthol, oedd i fod i gael ei gynnal ar y 7<sup>fed</sup> o Fehefin, gael ei hwyluso'n allanol a nodwyd y byddai'n cynnig cyfle i benderfynu ar feysydd ymarferol lle y gellid datblygu gwaith rhanbarthol.

#### **5. Cyflogwyr Cyfeillgar i Faethu**

Byddai'r eitem hon yn cae ei gohirio hyd y cyfarfod nesaf ar y 25<sup>ain</sup> o Fehefin 2019.

#### **6. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd Ddydd Mawrth, y 19<sup>eg</sup> o Chwefror 2019, yn gofnod cywir.

## 7. Cofnod gweithredu

**Pt 2** - Tîm y Bartneriaeth i edrych ar y ffordd/ffyrdd gorau i ddod â phersbectif person ifanc i waith y PSB.

Nododd NE fod TJ wedi bod i gyfarfod y Cynulliad leuenctid ac y byddai'n rhoi diweddariad i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.

**NE -  
Agenda**

**Pt 6** - Cyflogwyr Cyfeillgar i Faethu - gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf fel uchod.

**NE -  
Agenda**

**Pt 7** - Nododd NE fod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda chydweithwyr rhanbarthol ynghylch eitemau ar gyfer agenda cyfarfod y PSB Rhanbarthol ar y 7<sup>fed</sup> o Fehefin. Byddai'r eitemau'n cynnwys y cysylltiadau rhwng yr RPB a'r PSBs a chaffael bwyd lleol. Gofynnwyd i'r partneriaid gysylltu ag NE os nad oeddent wedi derbyn gwahoddiad eto.

Nododd SL fod adeiladu cyfoeth lleol wedi cael ei godi gan SPJ yn y cyfarfod diwethaf ac y dylid ychwanegu hyn at agenda yn y dyfodol.

**NE -  
Rhaglen  
waith**

Roedd pob cam gweithredu arall wedi cael ei gwblhau

## 8. Diweddariadau Prosiect Cynllun Lles

### Prosiect 1 - Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth

Rhoddodd JF drosolwg ar y diweddariad a gylchredwyd cyn y cyfarfod. Nododd y byddai Coleg Penfro yn cynhyrchu llyfryn Canllawiau i Reolwyr ar gyfer y prosiect a fyddai'n cael ei rannu fel rhan o'r diweddariadau yn y cyfarfod nesaf ac y câi'r modd i hybu deilliannau o'r prosiect ei drafod mewn cyfarfod gweithredol i'w gynnal yn ddiweddarach yn y prynhawn. Roedd pwyntiau cyswllt wedi cael eu pennu yn yr holl sefydliadau oedd yn cymryd rhan ynglŷn â lleoliadau. Byddai adborth gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol ar y gofynion o ran sgiliau yn y rhanbarth ei fwydo i mewn i'r prosiect.

**JF**

### Prosiect 2 - Asesiad Risg Amgylcheddol a'r Newid yn yr Hinsawdd

Rhoddodd AW ddiweddariad ar lafar. Gyda golwg ar Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd, roedd adroddiad wedi cael ei gomisiynu ar sail 3-sir a rhoddai asesiad o ddata a risg ym mhob sir. Roedd chwe ardal benodol o risg wedi eu canfod yn Sir Benfro, sef:

- Gwaelod Tref Abergwaun
- Solfach
- Penfro
- Doc Penfro
- Aberfechan
- Hwlfordd

Amlinellodd AW y camau nesaf yn y broses o ymgysylltu â chymunedau a nododd y byddai'r adroddiad terfynol ar gael ym mis Mai, ac felly y gellid ei ychwanegu i agenda Mehefin i'w drafod.

**NE -  
Agenda**

Gyda golwg ar yr Asesiad Risg Amgylcheddol, nododd AW fod proffil ardal ar gyfer y De-orllewin wedi cael ei ddatblygu ac y byddai gwaith yn parhau dros yr ychydig fisoedd nesaf i ddatblygu hyn ymhellach ac o ganlyniad i hynny câi datganiadau ardal eu

**AW**

cynhyrchu. Roedd fersiynau drafft ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a byddai AW yn rhoi'r dolenni cyswllt i'r rhain i'w cylchredeg

#### Prosiect 4 - Gwneud Pethau'n Wahanol

Rhodddwyd diweddariad ar y Rhwydweithiau Cymunedol Integredig dan eitem 3 uchod.

Nododd NE fod y PSB wedi cytuno i edrych ar faterion eraill fel rhan o'r prosiect hwn, gan gynnwys rhannu data, ac y byddai angen cynnal trafodaethau pellach ar ryw bwynt ynghylch y ffordd i ddatblygu'r meysydd ychwanegol hyn.

**NE –  
Rhaglen  
waith**

#### Prosiect 5 - Dathlu'r Awyr Agored

Diweddariad i gael ei roi yn y cyfarfod nesaf.

#### Prosiectau 6,7 ac 8 - prosiectau ar thema "Cymuned"

Rhodddodd SL ddiweddariad i'r partneriaid ar fid a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o raglen Trawsnewid WWCP am gyllid i'r PSBs ddatblygu gwaith ymgysylltu ar draws y rhanbarth. Rhodddodd IT hefyd ddiweddariad cryno ar y prosiect Lles a Gwytnwch Cymunedol a gwaith sy'n mynd ymlaen yn Hook, Scleddau a Thre-cŵn.

### **9. Unrhyw Fater Arall**

Nododd NE y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Neuadd y Sir ac y byddai'n cael ei ddarparu ar y we oni fyddai partneriaid yn cynghori fel arall. Nid oedd dim gwrthwynebiad.

Câi adroddiad blynyddol y PSB ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf a byddai NE/LR mewn cysylltiad â swyddogion arweiniol ar gyfer pob prosiect dros y mis nesaf.

Hysbysodd RR-E y partneriaid mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf gan fod ei dymor fel Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dod i ben. Diolchodd i'r partneriaid am y cyfle i gymryd rhan yng ngwaith PSB Sir Benfro.

Nododd JP fod y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd yn edrych i mewn i ffyrdd o gyflawni twristiaeth yn Sir Benfro a'i gyfraniad i les. Cynigiodd ddarparu cyflwyniad partneriaeth cyrchfannau mewn cyfarfod yn y dyfodol a châi hyn ei ychwanegu ar y rhaglen waith.

**NE –  
Rhaglen  
waith**

Nododd SL y byddai'r Wythnos Wirfoddolwyr Genedlaethol yn cael ei chynnal ym mis Mehefin gyda Ffair Wirfoddoli yn cael ei chynnal gan PAVS ar y 5<sup>ed</sup> o Fehefin i hybu cyfleoedd i wirfoddoli yn Sir Benfro. Byddai hi'n anfon manylion i LR i'w cylchredeg i'r partneriaid ac iddynt eu hybu drwy eu rhwydweithiau.

**SL/LR**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 p.m.